Portffolio
Fy Ardal

2026

Emma Picton Evans

Nod y pecyn hwn yw dysgu patrymau iaith Cymraeg fel ail iaith trwy ddefnyddio Caerdydd fel ardal leol. Mae defnyddio ardal leol yn gwneud y dysgu yn fwy diddorol ac yn helpu'r disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun naturiol.

Mae'r pecyn yn cynnwys gweithgareddau ar draws chwe Maes Dysgu a Phrofiad, gyda ffocws ar Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Iechyd a Lles a'r Mathemateg a Rhifedd .

Bydd y disgyblion yn dysgu'r patrymau trwy weithgareddau drilio, gemau iaith a thasgau creadigol. Defnyddir mat iaith i gefnogi'r disgyblion wrth adeiladu brawddegau.

Mae gwahaniaethu yn rhan bwysig o'r pecyn er mwyn helpu pob disgybl I wneud cynnydd yn y Gymraeg.

Grid Dysgu

Y Celfyddydau Mynegiannol
Thema: Hysbyseb am Gaerdydd

Gwybodaeth flaenorol:
Mae Caerdydd yn ddinas.

Ffocws Iaith:
Yn fy mhoster mae ______.
Dw i'n defnyddio ______.

Enghreifftiau:
Yn fy mhoster mae Castell Caerdydd.
Yn fy mhoster mae'r bae.
Dw i'n defnyddio lliwiau llachar.
Dw i'n defnyddio lluniau.

Geirfa:
poster
llun
lliwiau
castell
bae
hysbyseb

Gweithgareddau:
Edrych ar bosteri twristiaeth
Trafod posteri mewn parau
Creu poster am Gaerdydd
Cyflwyno poster i'r dosbarth

Iechyd a Lles
Thema: Ymweld â Chaerdydd

Gwybodaeth flaenorol:
Mae plant yn gallu dweud:
Dw i'n hoffi ______.

Ffocws Iaith / Patrwm:
Gallwn i ______ yng Nghaerdydd.
Gallet ti ______ yng Nghaerdydd.

Enghreifftiau:
Gallwn i gerdded yn y parc.
Gallwn i ymweld â'r bae.
Gallet ti feicio yn y parc.
Gallet ti chwarae yn y parc.

Geirfa:
cerdded
beicio
chwarae
parc
bae
iach

Gweithgareddau:
Trafod beth gallwn ni wneud yng Nghaerdydd
Gwaith pâr – gofyn a dweud
Pwyntio a dweud
Disgrifio lluniau

Y Dyniaethau
Thema: Lleoedd yng Nghaerdydd

Gwybodaeth flaenorol:
Mae'r plant yn gallu dweud:
Mae ______ yng Nghaerdydd.

Ffocws Iaith:
Beth sydd yng Nghaerdydd?
Mae ______ yng Nghaerdydd.

Ble mae'r ______?
Mae'r ______ ger ______.

Enghreifftiau:
Mae Castell Caerdydd yng Nghaerdydd.
Mae'r bae ger y dŵr.
Mae parc yng Nghaerdydd.

Geirfa:
Castell Caerdydd
Bae Caerdydd
Parc Bute
Amgueddfa

Gweithgareddau:
Pwyntio a dweud
Darllen a chydweddu
Disgrifio lluniau

Leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Thema: Ymweliad â Chaerdydd

Gwybodaeth flaenorol:
Mae Caerdydd yn ddinas.
Mae castell yng Nghaerdydd.

Ffocws Iaith/Patrwm:
Ble es ti?
Es i i ______.
Es i gyda ______.
Es i ar y ______.

Beth wnest ti?
Gwelais i ______.
Cerddais i ______.
Bwytais i ______.

Enghreifft:
Es i i Gaerdydd gyda fy nheulu.
Es i ar y bws.
Gwelais i'r castell.
Cerddais i o gwmpas y bae.
Bwytais i mewn caffi.

Geirfa:
Castell, bae, parc, amgueddfa, caffi, siopau

Gweithgareddau:
Drilio – ailadrodd a clapio
Darllen a chydweddu
Gêm siarad
Tasg ysgrifennu

Mathemateg a Rhifedd

Thema: Cymharu lleoedd yng Nghaerdydd

Gwybodaeth flaenorol:
Mae'r plant yn gallu defnyddio:
Mwy a llai

Ffocws Iaith:
Pa un sy'n fwy?
Mae'r ______ yn fwy na'r ______.

Pa un sy'n llai?
Mae'r ______ yn llai na'r ______.

Enghreifftiau:
Mae'r parc yn fwy na'r ardd.
Mae'r castell yn fwy na'r tŷ.

Geirfa:
mwy
llai

Gweithgareddau:
Drilio – ailadrodd
Darllen brawddegau
Creu cardiau cymharu
Gwrando ar frawddegau
Trefnu brawddegau
Canu cân

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Thema: Defnyddio map i ddod o hyd i lefydd yng Nghaerdydd

Gwybodaeth flaenorol:
Mae plant yn gallu dweud:
Mae ______ yng Nghaerdydd.

Ffocws Iaith / Patrwm:
Defnyddia'r map.
Ewch yn syth.
Trowch i'r chwith.
Trowch i'r dde.

Enghreifftiau:
Defnyddia'r map.
Ewch yn syth at y castell.
Trowch i'r chwith at y parc.

Geirfa:
map
map digidol
ffôn
iPad
syth
chwith
dde

Gweithgareddau ar PowerPoint:

Edrych ar fap digidol o Gaerdydd
Dilyn cyfarwyddiadau
Dod o hyd i lefydd ar Google Maps
Gwaith pâr – rhoi cyfarwyddiadau

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Thema: Ymweliad â Chaerdydd

Gwybodaeth flaenorol

Mae’r plant yn gallu defnyddio geirfa syml am leoedd e.e. cerdded, gweld a bwyta

Mae’r plant wedi ymarfer y patrwm:
Es i …

Amcan Iaith

Mae’r plant yn gallu defnyddio:

- Es i …
- Es i gyda …
- Es i ar y …
- Gwelais i …
- Cerddais i …
- Bwytais i …

Patrymau Iaith

Ble es ti?
Es i i ______.
Es i gyda ______.
Es i ar y ______.

Beth wnest ti?
Gwelais i ______.
Cerddais i ______.
Bwytais i ______.

Dilyniant Dysgu

Mae’r wers yn dilyn dilyniant clir:

Cyflwyniad a drilio’r patrymau iaith newydd
Gweithgaredd siarad i ymarfer yr iaith
Gweithgaredd Wordwall
Gweithgaredd ‘Arddweud Rhedeg’ i ddatblygu darllen ac ysgrifennu
Plenari i adolygu’r iaith - Gêm Darllenwr Meddwl

Mae’r dilyniant hwn yn helpu’r plant i symud o wrando i ddefnyddio’r iaith yn annibynnol.



Drilio Iaith

Methodoleg

- Dewisais ddechrau gyda gweithgareddau drilio achos:
- Mae drilio yn helpu’r plant i ddod yn gyfarwydd â’r patrwm iaith newydd.
- Mae ailadrodd yn rhoi hyder i’r plant siarad Cymraeg.
- Mae modelu’r iaith yn helpu’r plant i glywed brawddegau cywir.



Gweithgaredd Drilio – Patrymau Iaith Caerdydd

Mae’r patrymau iaith yn cynnwys:

Es i i Gaerdydd
Es i ar y bws
Es i gyda fy nheulu
Gwelais i’r castell
Cerddais i o gwmpas y parc
Bwytais i hufen iâ

Mae’r patrymau hyn yn helpu’r disgyblion i siarad am ymweliad â Chaerdydd.

Camau Drilio
Defnyddio sleidiau PowerPoint i gyflwyno’r patrymau iaith
Ailadrodd corawl gyda’r dosbarth
Echoio’r brawddegau ar ôl yr athro
Clapio’r sillafau wrth ddweud y brawddegau
Newid geiriau i greu brawddegau newydd
Ailadrodd y patrymau sawl gwaith

Elle est

ti?

BLE EST TI?

Es i i..

I went to



BLE EST TI?



Es i gyda..
I went with..

BLE EST TI?

Es i ar y..

I went on the..

BETH WNEST TI?

Gwelais i..
I saw..



BETH WNEST TI?

Cerddais i..
I walked..

BETH WNEST TI?

Bwytais i

I ate..



ENGHREIFFT:

Es i i Gaerdydd gyda fy nheulu.

ENGHREIFFT:

Es i ar y bws.

ENGHREIFFT:

Gwelais i gastell

ENGHREIFFT:

Cerddais i o gwmpas y bae.

ENGHREIFFT:

Bwytais i mewn caffi.

GEIRFA:



Castell

GEIRFA:

Bae

GEIRFA:



Parc

GEIRFA:

Caffi

GEIRFA:



Siopau

GEIRFA:

Amgueddfa

Methodoleg - Gweithgaredd 1 – Gêm Siarad

Dewisais i'r gweithgaredd hwn achos:

•Mae'r disgyblion yn gweithio mewn parau i ddatblygu hyder wrth siarad Cymraeg.
•Mae'r gweithgaredd yn dilyn y gweithgaredd drilio ac yn helpu'r disgyblion i ddefnyddio'r patrymau yn annibynnol.
•Mae defnyddio brawddegau llawn yn helpu i ddatblygu siarad.
•Mae'r ailadrodd yn helpu'r disgyblion i gofio'r patrymau iaith.

Gweithgaredd 1 – Gêm Siarad
Ar ôl y gweithgaredd drilio, bydd y disgyblion yn chwarae gêm siarad er mwyn ymarfer y patrymau iaith mewn ffordd hwyliog a naturiol.
Bydd y disgyblion yn gweithio mewn parau yn gofyn ac yn ateb cwestiynau.

Cwestiynau
•Ble es ti?
•Pwy aeth gyda ti?
•Sut es ti?
•Beth wnest ti?

Atebion Posibl
•Es i i'r parc / bae / castell
•Es i gyda fy mam / ffrind / teulu
•Es i ar y bws / trên / car

Gall y disgyblion ymestyn eu hatebion:
•Gwelais i ______
•Cerddais i ______
•Bwytais i ______

e.e. Es i i'r bae gyda fy mam ar y bws. Gwelais i longau. Cerddais i ym Mharc Bute. Bwytais i hufen iâ.

Sut i Chwarae

- Gweithio mewn parau
- Un disgybl yn gofyn cwestiynau
- Un disgybl yn ateb
- Creu brawddegau llawn
- Newid rôl
- Ailadrodd gyda dewisiadau gwahanol

Adnoddau:

- Cardiau cwestiynau
- Taflen gyda'r tri bocs (Ble / Pwy / Sut)
- Help Llaw gyda'r patrymau

Cardiau Cwestiynau

Ble es ti?

Pwy aeth gyda ti?

Sut es ti?

Beth wnest ti?

Cardiau'r bocsys

Ble?
Pwy?
Sut?

Help Llaw

Ble?		Pwy?		Sut	
Es i	i Parc Bute i Gastell Caerdydd i Stadiwm y Principality i Fae Caerdydd i'r siopau	Es i	gyda fy mam gyda fy tad gyda fy ffrind gyda fy nheulu gyda fy chwaer gyda fy mrawd	Es i	ar y bws ar y trên yn y car ar y beic

HELP LLAW

Ble?				Pwy?	Sut?
		Es i	i Gastell Caerdydd i Stadiwm y Principality i Fae Caerdydd i'r siopau i Park Bute	gyda fy mam gyda fy tad gyda fy ffrind gyda fy nheulu gyda fy chwaer gyda fy mrawd	ar y bws ar y trên yn y car ar y beic

Pan fydd y disgyblion yn fwy hyderus, defnyddiwch y help llaw hwn i uno'r brawddegau.



Help Llaw

Gwelais i	bobl ym Mharc Bute gêm rygbi yn y stadiwm siopau mawr longau yn y bae hen bethau yn yr amgueddfa	Cerddais i	yn y castell yn y dref i'r siopau ar hyd y bae ym Mharc Bute	Bwytais i	hufen iâ bizza bysgod a sglodion frechdan ginio yn y caffi

Methodoleg – Gêm QR

Dewisais ddefnyddio’r gêm QR achos:

Mae’r gweithgaredd yn helpu’r plant i ymarfer y patrymau iaith mewn ffordd hwyliog.

Gêm Iaith

Chwaraewch y ddwy gêm yn *annibynnol ar yr iPad*

Gêm 1

Gêm 2

<u>Sut i chwarae?</u>

Trefnwch y geiriau i wneud brawddeg gywir.

Gêm 1

Gêm 2

Methodoleg - ‘Arddweud Rhedeg’

Dewisais i arddweud rhedeg achos:
•Mae’n helpu’r disgyblion i ddatblygu darllen, siarad a ysgrifennu.
•Mae’r disgyblion yn gweithio mewn parau.
•Mae’r ailadrodd yn helpu i gofio’r patrymau iaith.
•Mae’r gweithgaredd yn hwyliog ac yn gweithredol.

Cyfarwyddiadau - Gweithgaredd ‘Arddweud Rhedeg’
•Rhannwch y disgyblion yn barau.
•Rhowch rôl i bob disgybl (darllenwr ac ysgrifennwr).
•Rhowch y brawddegau ar y wal.
•Mae’r darllenwr yn rhedeg i ddarllen y frawddeg.
•Mae’r darllenwr yn cofio’r frawddeg ac yn dweud hi wrth y partner.
•Mae’r ysgrifennwr yn ysgrifennu’r frawddeg.
•Mae’r disgyblion yn newid rôl.

Arddweud Rhedeg

Es i i Parc Bute gyda fy mam ar y bws.
Cerddais i ym Mharc Bute. Roedd hi'n braf.

Es i i Fae Caerdydd gyda fy ffrind ar y trên.
Gwelais i longau yn y bae. Roedd hi'n ddiddorol.

Es i i Gastell Caerdydd gyda fy teulu yn y car.
Cerddais i yn y castell. Roedd hi'n hwyl.

Es i i'r siopau gyda fy chwaer ar droed.
Bwytais i bysgod a sglodion. Roedd e'n flasus.

Methodoleg - Gêm Darllenwr Meddwl

Dewisais i'r gêm ddyfalu achos:
•Mae'r disgyblion yn ymarfer y patrymau iaith wrth siarad.
•Mae'r disgyblion yn gofyn ac yn ateb cwestiynau.
•Mae'r gweithgaredd yn helpu i ddatblygu hyder wrth siarad Cymraeg.
•Mae'r gweithgaredd yn hwyliog

Plenari i adolygu'r iaith – Gêm Darllenwr Meddwl

Cyfarwyddiadau

•Mae'r athro yn modelu ble aeth hi.
•Mae'r athro yn gwneud gweithredoedd darllen meddwl.
•Mae'r disgyblion yn gofyn cwestiynau.
•Mae'r disgyblion yn ceisio dyfalu'r lle.
•Ar ôl ymarfer, mae'r disgyblion yn cymryd tro i feddwl am le.

Mathemateg a Rhifedd
Thema: Cymharu lleoedd yng Nghaerdydd

Gwybodaeth flaenorol
Mae'r plant yn gallu defnyddio geirfa sylfaenol am leoedd e.e. castell, parc, ysgol a siop.

Amcan Iaith
Mae'r plant yn gallu defnyddio:
mwy
llai
mawr
bach

Patrymau Iaith
Mae'r ______ yn fwy na'r ______.
Mae'r ______ yn llai na'r ______.

Dilyniant Dysgu
Mae'r wers yn dilyn dilyniant clir:
Drilio'r patrymau iaith newydd
Gweithgaredd gwrando i ddatblygu dealltwriaeth
Gweithgaredd siarad i ymarfer yr iaith
Gweithgaredd darllen ac ysgrifennu i gefnogi'r dysgu
Plenari i adolygu'r iaith
Mae'r dilyniant hwn yn helpu'r plant i symud o wrando i ddefnyddio'r iaith yn annibynnol.



Cyflwyniad – Drilio Iaith

Methodoleg

Dewisais ddechrau gyda gweithgaredd drilio achos:
Mae drilio yn helpu’r plant i ddod yn gyfarwydd â’r patrymau iaith newydd.
Mae ailadrodd yn rhoi hyder i’r plant siarad Cymraeg.
Mae modelu’r iaith yn helpu’r plant i glywed y brawddegau cywir.
Mae’r gweithgaredd yn cefnogi dysgwyr Cymraeg fel ail iaith.
Mae gweithgaredd llafar yn datblygu sgiliau siarad y plant.

Gweithgaredd

Bydd yr athro yn dangos lluniau o leoedd yng Nghaerdydd:
castell
parc
ysgol
siop
tŷ
Bydd yr athro yn modelu’r patrymau iaith:
Mae’r castell yn fwy na’r tŷ.
Mae’r parc yn fwy na’r ardd.
Mae’r siop yn llai na’r ysgol.

Bydd y plant yn ailadrodd y brawddegau fel dosbarth.

Gêm Drilio – Clap os yw’n Wir
Bydd yr athro yn dweud brawddegau:
Mae’r parc yn fwy na’r ardd.
Mae’r tŷ yn fwy na’r castell.
Mae’r ysgol yn fwy na’r siop.

Bydd y plant yn gwrando:
Clapio os yw’r frawddeg yn wir
Peidio â chlapio os yw’r frawddeg yn anghywir
Mae hyn yn datblygu sgiliau gwrando a deall.

Mae’r castell yn fwy na’r tŷ.



Mae'r parc yn fwy na'r ardd.

Mae’r siop yn llai na’r ysgol.

Mae’r stadiwm yn fwy na’r siop.

Gweithgaredd 1 – Gwrando

Methodoleg

Dewisais weithgaredd gwrando achos:

- Mae gwrando yn bwysig wrth ddysgu iaith newydd.
- Mae’r gweithgaredd yn helpu’r plant i ddeall yr iaith cyn ei defnyddio.
- Mae lluniau yn helpu’r plant i ddeall yr iaith.
- Mae’r gweithgaredd yn addas ar gyfer dysgwyr gweledol.
- Mae gwrando gweithredol yn helpu’r plant i ganolbwyntio ar y patrymau iaith.

Gweithgaredd

Bydd yr athro yn darllen brawddegau gan ddefnyddio'r patrymau iaith.

Enghreifftiau:

- Mae'r castell yn fwy na'r tŷ.
- Mae'r parc yn fwy na'r ardd.
- Mae'r siop yn llai na'r ysgol.
- Mae'r stadiwm yn fwy na'r siop.

Bydd y plant yn gwrando'n ofalus.

Ni fydd y brawddegau wedi'u hysgrifennu ar y daflen.

Bydd gan y plant daflen gyda lluniau o leoedd.

Bydd y plant yn gwrando ar y brawddegau ac yn ticio'r llun cywir.

- **Estyniad**

Bydd y plant yn ysgrifennu un frawddeg: e.e. Mae'r parc yn fwy na'r ardd.

Enw: ____________________

Gwrandewch ar y frawddeg. Ticiwch y llun cywir

1\. parc gardd



2\. stadiwm ysgol



3\. ysgol siop

4\. castell stadiwm



Gweithgaredd 2 – Siarad

Methodoleg

Dewisais weithgaredd siarad mewn parau achos:

- Mae gweithio mewn parau yn rhoi mwy o gyfleoedd i siarad.
- Mae’r gweithgaredd yn datblygu hyder i ddefnyddio Cymraeg ar lafar.
- Mae defnyddio cardiau yn cefnogi cof y plant.
- Mae’r patrymau iaith yn cael eu hailadrodd mewn ffordd naturiol.
- Mae’r plant yn dysgu oddi wrth ei gilydd.

Gweithgaredd

Bydd y plant yn gweithio mewn parau gyda chardiau lluniau o leoedd yng Nghaerdydd.

Bydd un plentyn yn gofyn:

Pa un sy’n fwy?

Bydd y partner yn ateb:

Mae’r castell yn fwy na’r tŷ.

Neu:

Mae’r siop yn llai na’r ysgol.

Bydd y plant yn cymryd tro i siarad.

Lluniau

Gweithgaredd 3 – Darllen ac Ysgrifennu

Methodoleg

Dewisais weithgaredd darllen ac ysgrifennu achos:

- Mae darllen yn helpu’r plant i adnabod y patrymau iaith.
- Mae ysgrifennu yn helpu’r plant i ddysgu’r iaith newydd.
- Mae’r gweithgaredd yn helpu sgiliau llythrennedd.
- Mae’r plant yn defnyddio’r iaith yn annibynnol.
- Mae trefnu brawddegau yn helpu’r plant i adnabod y patrymau iaith.
- Mae defnyddio Wordwall yn gwneud y gweithgaredd yn fwy diddorol.

Gêm Iaith

Chwaraewch y gêm yn annibynnol ar yr iPad

<u>Sut i chwarae?</u>

Trefnwch y geiriau i wneud brawddeg gywir.

Plenari

Methodoleg

Dewisais blenari canu achos:
• Mae adolygu yn helpu'r plant i gofio'r iaith newydd.
• Mae canu yn helpu'r plant i ymarfer y patrymau iaith.
• Mae canu yn gwneud y wers yn fwy diddorol a hwyl.
• Mae'r plant yn datblygu hyder wrth siarad Cymraeg.

Cân
(alaw ’If you’re happy and you know it’)

Canwch gyda’r dosbarth.

Bydd y plant yn helpu i feddwl am fwy.

Mae’r bws yn llai na’r trên, ydy wir!
Mae’r bws yn llai na’r trên, ydy wir!
Mae’r bws yn llai na’r trên,
Yn llai na’r trên,
Mae’r bws yn llai na’r trên, ydy wir!

Mae’r parc yn fwy na’r ardd, ydy wir!
Mae’r parc yn fwy na’r ardd, ydy wir!
Mae’r parc yn fwy na’r ardd,
Yn fwy na’r ardd,
Mae’r parc yn fwy na’r ardd, ydy wir!

Mae Castell Caerdydd yn fwy na’r Senedd, ydy wir!
Mae Castell Caerdydd yn fwy na’r Senedd, ydy wir!
Mae Castell Caerdydd yn fwy na’r Senedd,
Yn fwy na’r Senedd,
Mae Castell Caerdydd yn fwy na’r Senedd, ydy wir

Iechyd a Lles Thema: Ymweld â Chaerdydd

Gwybodaeth flaenorol
Mae'r plant yn gallu defnyddio geirfa syml am leoedd e.e. parc a bae.
Mae'r plant yn gallu dweud beth maen nhw'n hoffi ei wneud.

Amcan Iaith
Mae'r plant yn gallu defnyddio:
Gallwn i ______ yng Nghaerdydd.
Gallet ti ______ yng Nghaerdydd.

Geirfa
cerdded
beicio
chwarae
parc
bae
iach

Patrymau Iaith
Gallwn i gerdded yn y parc. Gallwn i ymweld â'r bae.
Gallet ti chwarae yn y parc. Gallet ti feicio yn y parc.

Dilyniant Dysgu
Mae'r wers yn dilyn dilyniant clir:
•Drilio'r patrymau iaith newydd a rap i ymarfer y patrymau iaith.
•Gêm Trapdrws i ymarfer y patrymau iaith
•Gweithgaredd gwrando i ymarfer y patrymau iaith.
•Gweithgaredd ysgrifennu gyda bylchau i ymarfer y patrymau
•Plenari gêm i adolygu'r patrymau iaith.

Mae'r dilyniant hwn yn helpu'r plant i symud o wrando i ddefnyddio'r iaith yn annibynnol.

Methodoleg

Dewisais ddechrau gyda gweithgaredd drilio trwy ailadrodd a chanu achos:

•Mae ailadrodd yn helpu'r plant i gofio'r patrymau iaith.

•Mae dweud y brawddegau mewn lleisiau gwahanol yn gwneud y gweithgaredd yn fwy diddorol a hwyl.

•Mae defnyddio symudiadau yn helpu'r plant i gofio'r geirfa.

•Mae canu neu rap yn helpu'r plant i ymarfer yr iaith newydd.

•Mae'r gweithgaredd yn paratoi'r plant ar gyfer y gweithgareddau siarad.

Gweithgaredd

Bydd yr athro yn modelu'r brawddegau.

Bydd y plant yn ailadrodd y brawddegau.

Bydd y plant yn dweud y brawddegau mewn lleisiau gwahanol ac yn gwneud symudiadau.

Bydd y plant yn canu'r gân gyda'r dosbarth.

Rap

Bydd y plant yn dweud y rap gyda'r dosbarth. Bydd y plant yn clapio'r rhythm ac yn gwneud symudiadau.

Gallwn i gerdded yn y parc (cerdded)
Gallwn i ymweld â'r bae (edrych o gwmpas)

Gallet ti feicio yn y parc (symud fel beicio)
Gallet ti chwarae yn y parc (chwarae)

Gallwn i wylio rygbi yn y stadiwm (eistedd a gwylio)
Gallwn i fynd i'r siop (cerdded gyda bag)

Gallet ti fwyta hufen iâ (bwyta)
Gallet ti yfed sudd (yfed)

Gallwn i fynd i Gaerdydd (cerdded)
Gallwn i ymweld â'r castell (edrych o gwmpas)

Gallet ti redeg yn y parc (rhedeg)
Gallet ti chwarae gyda ffrindiau (chwarae)

Modelu Brawddegau

- **Gallwn i…**
- Gallwn i gerdded yn y Parc Bute.
- Gallwn i ymweld â'r bae.
- Gallwn i weld Castell Caerdydd.
- Gallwn i fynd i Stadiwm y Principality.
- Gallwn i siopa yn y ganolfan.
- Gallwn i yfed coffi yn y ddinas.
- Gallwn i eistedd yn y parc.
- Gallwn i gerdded o gwmpas y bae.
- Gallwn i fynd ar y bws.
- Gallwn i ymweld â'r amgueddfa.

Gallet ti…

Gallet ti feicio yn y parc.

Gallet ti chwarae yn y Parc Bute.

Gallet ti ymweld â'r bae.

Gallet ti weld y stadiwm.

Gallet ti fynd ar y bws.

Gallet ti gerdded yn y ddinas.

Gallet ti siopa yn y ganolfan.

Gallet ti fynd i'r castell.

Gallet ti eistedd wrth y bae.

Gallet ti ymweld â'r amgueddfa.

Methodoleg – Trap-ddor

- Dewisais ddefnyddio gêm Trap-ddor achos:
- Mae gemau yn gwneud y wers yn fwy diddorol.
- Mae'r plant yn cael cyfle i siarad Cymraeg.
- Mae'r patrymau iaith yn cael eu hailadrodd.
- Mae'r plant yn ymarfer y patrymau iaith.

- Gweithgaredd 1 – Trap-ddor

Trap-ddor

1. Gallwn i

gerdded yn y parc.
fynd i Stadiwm y Principality.
gerdded o gwmpas y bae.

2. Gallet ti

feicio yn y parc.
siopa yn y ganolfan siopa.
fynd ar y bws.

3. Gallwn i

eistedd yn y parc.
weld Castell Caerdydd.
ymweld â'r amgueddfa.

4. Gallet ti

chwarae yn y Barc Bute.
weld y Stadiwm y Principality.
eistedd wrth y bae.

5. Gallwn i

gerdded yn y ddinas
ymweld â'r bae.
yfed coffi yn y ddinas.

6. Gallet ti

yfed coffi yn y caffi.
fwyta hufen iâ yn y bae.
weld sioe yn Theatr y Mileniwm

Sut i chwarae?

Gweithio mewn parau. Partner Un: Dewisa un opsiwn ym mhob blwch. Partner dau: Darllen y frawddeg yn uchel a dyfala y diwedd. Mae'r partner yn ceisio dyfalu. Mae'n rhaid i ti ddweud y frawddeg gyfan.

Cywir = mynd ymlaen Anghywir = dechrau eto o'r dechrau

Rydw i eisiau i chi gael hwyl!

Methodoleg

Dewisais weithgaredd gwrando achos:
•Mae'r plant yn gwrando ar yr athro yn darllen sgript am Gaerdydd.
•Mae'r plant yn llenwi grid gyda ble gallwn i fynd a ble gallet ti fynd.
•Mae gwrando yn helpu'r plant i ddysgu'r patrymau iaith.

Mae'r dilyniant hwn yn helpu'r plant i symud o wrando i ddefnyddio'r iaith yn annibynnol.

Gwrando Gwahaniaethol

Tri gweithgaredd gwrando gwahaniaethol.
Mae'r athro yn darllen y sgript yn araf unwaith.
Yna mae'r athro yn darllen y sgript eto.

Tasg 1

- Mae’r plant yn paru’r lleoedd gyda’r lluniau.

Script yr Athro

Gallwn i fynd i Stadiwm y Principality.
Gallet ti fynd i Parc Bute.

Gallwn i fynd i Gastell Caerdydd.
Gallet ti fynd i’r bae.

Gallwn i fynd i Ganolfan Mileniwm Cymru.
Gallet ti fynd i’r ganolfan.

Enw:____________________

Gallwn i......	Gallet ti......

Tasg Wrando

- Gwrandewch ar yr athro neu'r athrawes yn darllen y sgript.
- Gwrandewch yn ofalus.
- Edrychwch ar y lluniau.
- Rhowch gylch o amgylch y lleoedd cywir.

Tasg 2

•Mae’r plant yn llenwi grid gyda ble gallwn i fynd a ble gallet ti fynd.

Script yr Athro

Gallwn i fynd i Stadiwm y Principality achos mae rygbi yno.
Gallet ti fynd i Parc Bute achos mae’n braf.

Gallwn i fynd i Gastell Caerdydd achos mae’n ddiddorol.
Gallet ti fynd i’r bae achos mae llawer o siopau yno.

Gallwn i fynd i Ganolfan Mileniwm Cymru achos mae sioeau yno.
Gallet ti fynd i’r ganolfan siopa achos mae’n brysur.

Enw:____________________

Gallwn i……	Gallet ti……

Tasg Wrando

- Gwrandewch ar yr athro neu'r athrawes yn darllen y sgript.
- Gwrandewch yn ofalus.
- Ysgrifennwch ble gallwn i fynd a ble gallet ti fynd yn y grid.

Tasg 3

•Mae’r plant yn ysgrifennu brawddegau gan ddefnyddio gallwn i a gallet ti.

Script yr Athro

Heddiw, gallwn i fynd i Stadiwm y Principality gyda fy ffrindiau achos mae rygbi yno.
Gallet ti fynd i Parc Bute i gerdded achos mae’n dawel ac yn braf.

Gallwn i fynd i Gastell Caerdydd i weld yr hen adeiladau achos mae’n ddiddorol iawn.
Gallet ti fynd i’r bae i fwyta hufen iâ achos mae’n hwyl.

Gallwn i fynd i Ganolfan Mileniwm Cymru i weld sioe achos rwy’n hoffi cerddoriaeth.
Gallet ti fynd i’r ganolfan siopa i brynu anrhegion achos mae llawer o siopau yno.

Enw:____________________

Gallwn i……	Gallet ti……

Tasg Wrando

- Gwrandewch ar yr athro neu'r athrawes yn darllen y sgript
- Gwrandewch yn ofalus.
- Ysgrifennwch ble gallwn i fynd a ble gallet ti fynd yn y grid.

- Her:

Allwch chi ysgrifennu brawddeg iawn gan ddefnyddio **gallwn i** neu **gallet ti**?

Methodoleg

Dewisais weithgaredd ysgrifennu achos;

- Gweithgaredd ysgrifennu i ymarfer y patrymau iaith.
- Mae’r plant yn ysgrifennu brawddegau gan ddefnyddio gallwn i a gallet ti.
- Mae’r plant yn defnyddio brawddegau enghreifftiol i helpu.
- Mae’r gweithgaredd yn helpu’r plant i ddefnyddio’r patrymau iaith yn annibynnol.

Gweithgaredd

Mae’r plant yn ysgrifennu neu’n rhoi brawddegau yn y drefn gywir gan ddefnyddio gallwn i a gallet ti.
Mae’r plant yn defnyddio brawddegau model i helpu.
Mae’r plant yn ysgrifennu 3 neu 4 brawddeg.

Torri a gludo brawddegau yn y drefn gywir.

ti	Gallet	fynd	Bute.	Parc	i
Gallwn	gerdded	i	y	yn	ddinas.
fynd	Gastell	i	Gallwn	Caerdydd.	i
wylio	ti	rygbi	stadiwm.	Gallet	yn y

Edrychwch ar y lluniau ac ysgrifennwch frawddegau gan ddefnyddio gallwn i neu gallet ti. Defnyddiwch y helpllaw I'ch helpu!

Help Llaw

Gallwn i	gerdded yn y Parc Bute. ymweld â'r bae. weld Castell Caerdydd. fynd i Stadiwm y Principality. siopa yn y ganolfan siopa. yfed coffi yn y ddinas. eistedd yn y parc.	Gallet ti	fynd ar y bws. gerdded yn y ddinas. fynd i'r castell. eistedd wrth y bae. ymweld â'r amgueddfa. fynd i'r eglwys. weld sioe yng Nghanolfan Mileniwn Cymru.

Plenari – Adolygu’r Iaith
Methodoleg

Dewisais weithgaredd plenari achos:

Mae’r gweithgaredd yn helpu’r plant i ddefnyddio’r patrymau iaith.
Mae’r plenari yn helpu’r plant i adolygu’r iaith

Gwahaniaethol

•Mae’r athro yn dangos lluniau o leoedd yng Nghaerdydd.
•Mae’r plant yn dweud neu’n ysgrifennu brawddegau gan ddefnyddio gallwn i neu gallet ti.
•Mae’r gweithgaredd yn helpu’r plant i gofio’r patrymau iaith.

Adnoddau:

•Lluniau o leoedd yng Nghaerdydd
•Bwrdd gwyn bach a pheniau
•Help llaw

Crynodeb

Mae’r pecyn hwn yn helpu’r disgyblion i ddysgu a defnyddio patrymau iaith newydd. Mae’r gweithgareddau yn helpu’r disgyblion i ymarfer siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg mewn ffordd hwyliog. Mae’r gweithgareddau yn helpu’r disgyblion i ddatblygu hyder wrth ddefnyddio’r Gymraeg.

Ar ôl y cwrs hoffwn i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y dosbarth.
Hoffwn i ddefnyddio mwy o gemau i ymarfer siarad Cymraeg.
Hoffwn i roi mwy o gyfleoedd i’r plant siarad Cymraeg.
Hoffwn i ddefnyddio drilio yn amlach achos mae’n helpu’r plant i gofio’r patrymau iaith